## 12/07/2026 – CYFARFOD CYHOEDDUS A GYNHALIWYD YN NEUADD BENTREF CLYNNOG FAWR AM 7.30 O'R GLOCH

Yn dilyn cais gan aelodau o'r cyhoedd, fe gynhaliodd Cyngor Cymuned Clynnog Fawr gyfarfod cyhoeddus brys i drafod eu pryderon ynglŷn â phrosiect y Grid Cenedlaethol i osod cebl trydan o dan y ddaear yn yr ardal.

Sefyllfa- Mae cyswllt Gorllewinol 2 (CG2) yn gynllun gan lywodraeth Sansteffan sydd yn rhan o gynllun uwchraddio'r grid Cenedlaethol. Rhan allweddol o'r cynllun yw gosod cebl o dan ddaear rhwng yr is-orsaf ym Mhentir a dewis o 3 opsiwn glanfa -A Maes Mawr- B Pontllyfni a C Aberdesach. Mae opsiwn C wedi ei ddiystyru yn barod. Mae opsiwn A yn edrych ar y wyneb yn llawer gwell opsiwn na B am nifer o resymau, ond am riw reswm mae y Grid Cenedlaethol yn ffafrio opsiwn B er byddai y llwybyr hwn yn creu aniddigrwydd a dinistr sylweddol i bentref Pontllyfni a thu hwnt am gyfnod o 5-7mlynedd. Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y gweill, ac sydd yn cau ar 21/7/26. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn er mwyn amlygu pryderon y gymuned - annog y gymuned i ymateb i'r ymgynghoriad a chymell y gymuned i gadw ysbryd hyderus a phositif, ac ymdrechu i gefnogi'r rhai all gael ei effeithio yn negyddol pe bai llwybr B yn cael ei gymeradwyo.

Yn bresennol o'r Cyngor Cymuned roedd Aaron Hughes (cadeirydd), Nia Jones (clerc), Thomas Williams, Eilir Evans a Ken Williams a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Elias Jones a'r Cyng. Dafydd Davies.  Roedd oddeutu 40 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

Croesawodd Aaron Hughes pawb i'r cyfarfod a diolchodd i Lowri Gwyn am fod yn bresennol i gyfieithu'r cyfarfod i'r Saesneg ar gyfer y rhai oedd yn dymuno hyn.

Esboniodd Aaron bod y Cyngor Cymuned wedi gwahodd Dylan Herbert o'r Grid Cenedlaethol i gyfarfod er mwyn derbyn gwybodaeth am y prosiect hwn rhai misoedd yn ôl.  Esboniodd hefyd mai ychydig iawn oedd y cyngor yn gallu cynnig o ran cymorth a chefnogaeth i'r sefyllfa gan mai ymgynghoriad cyhoeddus ydyw a bod hi yn ofynnol i'r cyngor fod yn ddiduedd ei barn er lles democratiaeth. Gofynnwyd i Dylan Herbert beth oedd dyletswydd y cyngor cymuned yn y broses, a eglurodd nad oedd dyletswydd ar y cyngor gan y byddai'r Grid Cenedlaethol yn hysbysu'r gymuned ynglŷn â sut a phryd i fynychu sesiynau galw fewn i dderbyn gwybodaeth a ffeithiau cadarn ynglŷn ar cynllun, cyn iddynt ymateb i'r ymgynghoriad. Cytunodd y cyngor i rannu'r wybodaeth ar y cyfryngau ac na fyddai diben mewn cynnal cyfarfod cyhoeddus. Yn dilyn y cyfarfod hwn nid oedd gan y cyngor unrhyw bryderon ynglŷn â beth oedd wedi ei ddweud.  Nododd Aaron bod pawb wedi cael cyfle i fynd i'r cyfarfodydd / sesiynau sydd wedi eu cynnal dros yr wythnosau diwethaf, ond roedd rhai yn nodi nad oeddynt yn medru gan eu bod yn cael eu cynnal yn ystod oriau gwaith.  Mae rhai hefyd yn cael problemau gyda

chyflwyno'r ymgynghoriad ar y wefan a gofynnwyd i'r clerc holi Dylan Herbert am hyn a gweld beth sy'n mynd ymlaen.

Nodwyd bod y cyhoedd wedi dychryn gweld beth sydd mewn golwg.

Y mwyaf o bryderon sy'n cael eu rhoi ymlaen ar yr ymgynghoriad cyhoeddus y gorau, ond pwysleisiwyd ei bod yn bwysig i BAWB lenwi'r ymgynghoriad er mwyn rhoi gwybod iddynt am y pryderon hyn.

Gofynnodd Mr Jonathan Lamb os oedd modd iddo ddweud gair a bu iddo ddarllen yr e-bost a oedd wedi ei yrru i'r cyngor yn barod ac sydd wedi ei basio ymlaen i'r Grid yn barod ar ôl ei dderbyn.  Diolchwyd iddo am ei waith gyda hyn a hefyd cymerwyd y cyfle i ddiolch i Rhys a Zoe (Hendy) am yrru pethau ymlaen i ni a nodwyd bod y rhain hefyd wedi eu pasio ymlaen yn barod.

Gofynnwyd a ydi CADW yn rhan o'r ymgynghoriad, dim yn ymwybodol os ydynt felly angen dilyn fyny ar hyn.

Adroddodd Rhys a Zoe (Hendy) eu bod wedi gofyn am gyfarfod gyda rhywun o'r Grid ond hyd yn hyn dim wedi digwydd, ond nawr maent wedi cysylltu â Gareth Wyn Jones sydd wedi cysylltu â'r grid ar eu rhan ac mae cyfarfod i fod yn digwydd wythnos nesaf.

Adroddodd un o'r cyhoedd oddi ar wefan y grid am y defnyddiau ayyb mae'r cebl wedi ei wneud ohono a faint o bridd maent yn rhoi o'i chwmpas a bydd y gwres y mae yn cynhyrchu yn ofnadwy sydd yn achosi pryder iddi a'r effaith y bydd yn cael. Esboniodd Aaron y dylid canolbwyntio ar y pryderon arwynebol ac ymarferol ac nad oedd y math o gebl na sut y byddai yn cael ei gosod yn berthnasol i'r cyfarfod hwn.

Gofynnwyd a fuasai posib cael pleidlais yn y cyfarfod heno ond atebodd Aaron na fysai hyn yn digwydd ac nad oedd diben i gael pleidlais.  Nododd bod yna rai yn y cyfarfod o blaid y gwaith a dim eisiau achosi rhwyg yn y gymdeithas drwy wneud hyn.

Cynigiodd Aaron bod y tirfeddianwyr yn cynnal cyfarfod gyda'i gilydd a siarad gyda thirfeddianwyr eraill sydd wedi bod drwy hyn yn barod i weld sut effaith y mae wedi ei gael arnynt. Cynigiodd Aaron y byddai'r cyngor cymuned yn fodlon helpu i drefnu hyn ar ôl yr ymgynghoriad ar gyfer paratoi ac ymdopi a pa bynnag sefyllfa fyddwn yn wynebu.

Nododd unwaith eto bwysigrwydd i BAWB ymateb i'r ymgynghoriad.

Gofynnwyd pa effaith fydd hyn yn cael ar yr ysgol?   Bydd rhieni yn symud eu plant i ysgolion eraill gan nad ydynt eisiau dod drwy'r traffic yn ddyddiol i fynd i Brynaerau ac y gallasai llwch - allyriadau a sŵn peiriannau fod yn peri pryder i rieni syn cysidro pa ysgol i yrru eu plant dros y 5-7 mlynedd nesaf.

Pe bai'r Grid yn mynd am Opsiwn A yna buasai hyn yn achosi llai o rwystrau ar draffig ayyb.  Mae'r tir yn opsiwn A ar werth yn barod pam ddim mynd am hyn?

Cwestiynau eraill a ofynnwyd ac sydd eisiau ateb gan y grid yw:

Pwy sy'n gyfrifol am y cebl pan mae yn ei lle?  Ee yswiriant rhag ofn i unrhyw beth ddigwydd os yw'r tirfeddianwyr yn gwneud gwaith ar eu tir a rhywbeth yn digwydd oherwydd y cebl.

Beth fydd yr effaith ar y lonydd bach cefn gwlad - byddent yn cael eu defnyddion yn fwy gan y bydd pobl yn ceisio osgoi'r traffic ar y briffordd.  Pwy sydd am eu hatgyweirio ayyb yn rheolaidd?

Beth sy'n digwydd o syn dod ar draws tir hanesyddol?  A fydd y prosiect yn cael ei ddileu?

Beth yw oes y prosiect?  A fydd angen ail-osod cebl mewn blynyddoedd?

Beth fydd yr effaith ar werth tai?  Fydd neb eisiau prynu tŷ yn yr ardal a'r gwaith yma yn mynd ymlaen.

Gofynnodd Aaron beth fuasai pawb yn hoffi gweld y Cyngor Cymuned yn wneud - rhoi'r manylion am yr ymgynghoriad allan gan nad yw pawb ar y cyfryngau cymdeithasol ayyb nag yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen.  Gofynnodd am unrhyw syniadau ar sut i wneud hyn - teledu, radio, pamffledi drwy ddrysau.  Cynigwyd mai rhoi pamffled fuasai gweithio orau gan fod dyddiad cau'r ymgynghoriad ar 21ain Gorffennaf sydd yn rhoi llai nag wythnos.

Cytunodd Gwenda Morus i wneud pamffled a'i argraffu erbyn nos yfory (Llun 13eg Gorffennaf a gofynnwyd i'r rhai sy'n medru i ymgynnull nôl yn y Neuadd yng Nghlynnog am 8 o'r gloch nos fory er mwyn mynd i rannu'r pamffledi allan i dai'r ardal.

Diolchodd Aaron i bawb am eu presenoldeb a diolchodd hefyd i'w gyd-aelodau ar y cyngor cymuned am eu hymroddiad a bod mor barod i roi ei amser a'u hymdrech i'r gymuned ar hyd y blynyddoedd, rhai wedi rhoi oes o ymrwymiad i'r cyngor. Nododd nad oedd lle i gwestiynu ymroddiad na dilysrwydd unrhyw un o'r aelodau. Anogodd Aaron y gymuned i gadw yn bositif a pheidio gadael i'r sefyllfa eu cynhyrfu. Canolbwyntio ar ymateb i'r ymgynghoriad yn ymarferol a phwrpasol, ac mai sail y pryder/problem maent yn nodi syn bwysig nid ymdrechu i ddenu cefnogaeth niferus iddi. Gan mai edrych i oroesi neu leddfu y broblem fyddai NG ac na fyddai patisiwn na phrotest yn newid y sefyllfa.